# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2

## Cofnodion (LC2(3)-04-09)

**Dyddiad: 11 Mawrth 2009**
**Amser: 10.45am – 10.48am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Jeff Cuthbert, Caerffili
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Gareth Jones, Aberconwy
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Sandy Mewies, Delyn
Jenny Randerson, Canol Caerdydd

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Sarah Beasley, Clerc
Sarah Sargent, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Kathryn Potter, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Lisa Salkeld, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. Croesawodd y Cadeirydd Paul Davies a Gareth Jones fel aelodau newydd o'r Pwyllgor.

**Eitem 2: Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) – Cyfnod 1**

2.1 Cadarnhaodd y Cadeirydd mai'r cam nesaf ar gyfer y Pwyllgor, gan ei fod bellach wedi gorffen ystyried y Mesur Arfaethedig Dysgu a Sgiliau (Cymru) yng Nghyfnod 2, oedd craffu ar y Mesur Arfaethedig Plant a Theuluoedd (Cymru) yng Nghyfnod 1.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull gweithredu ar gyfer craffu ar y Mesur Arfaethedig Plant a Theuluoedd (Cymru), a chytunodd i gyhoeddi galwad gyffredinol am dystiolaeth; i wahodd cyflwyniadau ysgrifenedig oddi wrth sefydliadau ac unigolion; a gwahodd deiliaid diddordeb allweddol i gyflwyno tystiolaeth lafar dros yr wythnosau nesaf.

2.3 Mynegodd yr Aelodau bryder bod cyn lleied o amser ar gael i'r Pwyllgor gwblhau trafodion Cyfnod 1 ar y Mesur Arfaethedig. Cytunodd yr Aelodau'n unfrydol y dylid ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am estyniad ar gyfer cyflwyno'i adroddiad.